# CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL Y FAENOL

### ADRAN 48 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## RHYBUDD O GYNNIG I WNEUD NEWIDIADAU A REOLEIDDIR I YSGOL Y FAENOL

### YSGOL Y FAENOL, FFORDD PENRHOS, PENRHOSGARNEDD, BANGOR, LL57 2NN

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Corff Llywodraethol Ysgol y Faenol, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig ehangu'r safle gan gynyddu capasiti Ysgol y Faenol, Bangor, LL57 2NN, o 186 i 315 o ddisgyblion o 1 Ionawr 2021 ymlaen. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynhaliodd Corff Llywodraethol Ysgol y Faenol gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorai, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Ysgol y Faenol www.ysgolyfaenol.cymru yn ogystal â gwefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Ionawr 2021.** Yr Awdurdod Lleol fydd yn gweithredu'r cynnig

Yr awdurdod mynediad ar gyfer yr ysgol 3-11 fydd Cyngor Gwynedd. Bydd disgyblion yn cael eu derbyn i Ysgol y Faenol gan Gyngor Gwynedd yn unol â'i Bolisi Mynediad. Bydd y trefniadau mynediad i'r ysgol yn cael eu gwneud heb gyfraniad at allu na medr (bandio disgyblion).

Nifer y disgyblion yn yr ysgol yw 219 yn unol a ffigyrau Ionawr 2018 gan gynnwys disgyblion Meithrin. Capasiti presennol disgyblion yr ysgol (wedi ei gyfrifo yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 ' Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru) yw 186. Ar ôl gweithredu'r cynnig bydd darpariaeth i 315 o ddisgyblion Derbyn i blwyddyn 6 a 30 disgybl Meithrin llawn amser.

Y nifer y derbyn o 1 Ionawr 2021, bydd 45 disgybl Derbyn i blwyddyn 6 a 30 disgybl Meithrin llawn amser.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **21 Rhagfyr 2018.**

Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at sylw Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol y Faenol drwy law y Swyddfa Moderneiddio Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru.

Bydd Corff Llywodraethol Ysgol y Faenol yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac na chant eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnynt, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnodwyd:

Cadeirydd Corff Llywodraethwyr Ysgol y Faenol
Dyddiad Cyhoeddi: **23 Tachwedd 2018**

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r isod yn rhan o'r rhybudd ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)
Yn dilyn ymgynghori, bwriedir gynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315 o ddisgyblion yn weithredol o 1 Ionawr 2021.